**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 21 GORFFENNAF 2021 DYDD MERCHER, 21 GORFFENNAF 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Michelle Hicks (Ysgrifennydd) |
| Gwasanaethau Democrataidd (Hysbysu) |
| Pob Cynghorydd (Monitro) |
| Louise Bishop (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Liz Thomas (Swyddog) |
| Gemma Wasley (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |
| Andrea Prosser (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau | |
| | **<u>COFNODION</u>** | |
| No. 4 | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| No. 5 | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>** | |
| No. 6 | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG 2021-22 Y PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Arweinydd y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD y dyid cyflwyno Blaenraglen Gwaith Arfaethedig 2021-2022 y Pwyllgor Gweithredol i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Gorffennaf. | |
| No. 7 | **<u>GRANTIAU I SEFYDLIADAU</u>** | |

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prirf Swyddog Adnoddau.

Derbyniwyd y grantiau dilynol ar ôl cyhoeddi’r adroddiad:-

**ABERTYLERI**

**Ward Abertyleri – Cynghorydd N. Daniels**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Clwb Rygbi Old Tyleryans | £100.00 |
| 2. | Clwb Pêl-droed Abertillery Belles | £100.00 |
| 3. | Rhandiroedd Stryd Bishop | £70.00 |
| 4 | Rhandiroedd Stryd Adam | £70.00 |
| 5. | Clwb Pêl-rwyd Hŷn Abertyleri | £70.00 |
| 6. | Pêl-rwyd Iau Tillery Dragons | £70.00 |
| 7. | Clwb Rygbi Abertyleri BG | £100.00 |
| 8. | Clwb Criced Abertyleri | £100.00 |
| 9. | Band Tref Abertyleri | £100.00 |
| 10. | Clwb Pêl-droed Abertillery Bluebirds | £100.00 |
| 11. | Orffews Menywod Abertyleri | £70.00 |
| 12. | Clwb Pêl-droed Abertillery Excelsiors | £100.00 |
| 13. | Clwb Pêl-droed Abertillery Excelsiors | £100.00 |
| 14. | Côr Ebwy Fach | £70.00 |

**Ward Llanhiledd – Cynghorydd N. Parsons**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Clwb Bowls Llanhiledd a’r Cylch | £100.00 |
| 2. | Clwb Pêl-droed Abertillery Excelsiors | £100.00 |

**Ward Six Bells – Cynghorydd D. Hancock**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Six Bells | £100.00 |

**GLYNEBWY**

**Ward Beaufort – Cynghorwyr G. Thomas a S. Healy**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Apêl Elusennol Cadeirydd y Cyngor | £100.00 |
| 2. | Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Beaufort | £500.00 |
| 3. | WOAP Raglan Terrace | £100.00 |
| 4. | Cymdeithas Pyllau a Choetiroedd Rhiw Beaufort | £100.00 |

5. Côr Meibion Beaufort £150.00
6. Ysgol Gynradd Rhiw Beaufort £150.00
7. Amgueddfa Gweithfeydd Glynebwy £100.00

**<u>Ward Cwm – Cynghorwyr G. Davies a D. Bevan</u>**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Pwyllgor Goleuadau Cwm | £500.00 |
| 2. | Sefydliad Newydd Cwm | £500.00 |
| 3. | Cymdeithas Da Byw Cwm | £200.00 |
| 4. | Clwb Bocsio Cwm | £200.00 |
| 5. | Sgowtiaid Cwm | £200.00 |
| 6. | Clwb Codi Pwysau Cwm | £200.00 |
| 7. | TKs a Grŵp Cymunedol | £300.00 |
| 8. | Clwb Colomennod Cwm | £200.00 |
| 9. | Apêl Pabi Lleng Brydeinig Cwm | £200.00 |
| 10. | Cymdeithas Rhiani ac Athrawon Ysgol Gynradd Cwm | £200.00 |
| 11. | Digwyddiadau Waunllwyd a Victoria | £500.00 |
| 12. | Clwb Pensiynwyr Waunllwyd | £300.00 |
| 13. | Clwb Ieuenctid a Chymunedol Waunllwyd | £300.00 |
| 14. | Adran Iau Clwb Pêl-droed RTB | £200.00 |
| 15. | Eglwys Bedyddwyr Tirzah | £100.00 |

NWYD yn unol â hynny.

NWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod i dderbyn yr
'r wybodaeth a gynhwysir ynddo.

**No. 8**

**<u>STRATEGAETH GWEITHLU 2021-2026</u>**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.

Siaradodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol am yr adroddiad, sy'n rhoi cyfle i'r Pwyllgor Gweithredol ystyried a herio drafft Strategaeth Gweithlu 2021-2026. Amlinellodd y Swyddog brif bwyntiau yr adroddiad a chyfeiriodd at Atodiad 1 sy'n rhoi manylion y Ddrafft Strategaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, cadarnhawyd y caiff y cynllun gweithredu ei fonitro drwy Trosolwg Corfforaethol a'r Pwyllgor Gweithredol.

Gofynnodd yr Arweinydd hefyd sut y byddai cysondeb ymgysylltu â'r gweithlu yn cael ei fonitro. Dywedodd y Pennaeth Datblygu

| | | |
|---|---|---|
| | Sefydliadol y byddai ffocws y flwyddyn gyntaf ar weithio ystwyth a bod cynllun ymgysylltu neilltuol i gefnogi hyn. Mae hyn yn cynnwys gweminarau ar gyfer rheolwyr a gweithdai i ennyn diddordeb staff – byddai'r prosesau yn cael eu monitro/trafod gan y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol. Mae hefyd Gynllun Cyfathrebu Corfforaethol sy'n cynnwys elfen neilltuol ar gyfer staff. Ychwanegodd y Swyddog y byddai'r prosesau yn parhau i gael eu hadolygu ac y byddai adolygiad blynyddol o'r trefniadau gweithio ystwyth a fyddai'n cynnwys y gweithlu.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogi'r drafft Strategaeth Gweithlu 2021-2026 cyn ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo (Opsiwn 1). | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | |
| **No. 9** | **BUDDSODDIAD BWRDEISIOL CYMUNEDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Rhoddodd y Pennaeth Adfywio drosolwg manwl o'r adroddiad sy'n ceisio cymeradwyaeth i symud ymlaen â Buddsoddiad Ynni Cymunedol fel offeryn ariannol i gyllido seilwaith cynhyrchu ynni carbon isel a thechnoleg i ddarparu ynni a gwres i breswylwyr a busnesau Blaenau Gwent.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd yr adroddiad a nododd mai hwn oedd cam cyntaf y peilot ac y cyflwynir adroddiadau pellach dros gyfnod i hysbysu'r Pwyllgor Gweithredol sut mae'r rhaglen yn mynd yn ei blaen. Dywedodd yr Aelod Gweithredol mai ynni oedd un o'r costau mwyaf i breswylwyr a busnesau a bod y peilot hwn yn anelu i ostwng y gorbenion hyn, felly roedd y buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy a sut y cynhyrchir ynni yn allweddol i'r Awdurdod. Mae hwn yn gyfle buddsoddiad rhagorol i breswylwyr a busnesau a gobeithiai'r Aelod Gweithredol y byddai'r prosiect yn sicrhau arbedion ynni yn y dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1, sef symud ymlaen gyda lansio Bond Cymunedol:- | |

| | | |
|---|---|---|
| | a) Symud ymlaen gyda phrosiect SocialRes a gweithio tuag at ddatblygu cynnig Bond Cymunedol.<br>b) Byddai hyn yn cynnwys cynnal diwydrwydd dyladwy dechreuol o'r cytundebau cyfreithiol a'r dull gweithredu cyffredinol ond mae digonedd o gyllid ar gael er mwyn cynnal y gwerthusiad sydd ei angen.<br>c) Drwy ddilyn Opsiwn 1, byddai'r Cyngor yn cael mynediad i fuddsoddiad ariannol am gost is i gefnogi gyda datblygu'r prosiectau yn yr arfaeth a amlinellir ym Mhrosbectws Ynni 2019.<br>d) Gellid defnyddio hyn i gymryd lle neu wrth ochr cyllid y Bwrdd Benthyca Gweithiau Cyhoeddus (PWLB). Gellid ystyried cynigion bond pellach yn y dyfodol os yw'r cynllun peilot yn llwyddiannus. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG</u>** | |
| **No. 10** | **<u>POLISI DIOGELU GWASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r drafft bolisi fel y'i cyflwynwyd (Opsiwn 1). | |
| **No. 11** | **<u>TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL – CAE DEIGHTON A GERDDI SIRHYWI, TREDEGAR – CYNGOR TREF TREDEGAR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chaniatáu trosglwyddo'r ddwy ardal ar brydles 99-mlynedd heb unrhyw gymal torri (Opsiwn 3). | |
| **No. 12** | **<u>ADRODDIAD SAFLEOLIAD – ANIFEILIAID SY'N CRWYDRO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol drosolwg manwl o'r adroddiad a soniodd am broblemau gydag anifeiliaid | |

| | | |
|---|---|---|
| | sy'n crwydro o fewn y Fwrdeistref Sirol. Amlinellodd faint y broblem a'r mannau lle caiff problemau eu hadrodd yn gyson. Cyfeiriodd hefyd at y Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd ar y cyd gyda swyddogion a rhanddeiliaid i ddatrys digwyddiadau. Dywedwyd fod yr adroddiad yn un aml-adrannol a bod y Cynllun Gweithredu yn nodi'n glir y rhai sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu.<br><br>Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol wedi cefnogi Opsiwn 2 a chododd bwyntiau a gynhwyswyd yn y Cynllun Gweithredu. Roedd y Pwyllgor Craffu hefyd wedi gofyn am adroddiad ar y goblygiadau cost er mwyn monitro costau'r cynllun.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol mai datganiad safleoliad yw hwn, man dechrau ymgais i ddatrys problemau anifeiliaid sy'n crwydro ar draws y Fwrdeistref.<br><br>Ychwanegodd yr Aelod Gweithredol fod y Pwyllgor Craffu yn awyddus i gymryd rhan yn y broses ac er na chynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol oherwydd y pandemig, dywedodd yr Aelod Gweithredol ei fod wedi cwrdd yn answyddogol gydag unigolion i drafod gwahanol bryderon. Mae'r cyfarfodydd hyn yn allweddol ac mae'r Aelod Gweithredol yn awyddus i ailddechrau cyfarfodydd gydag Aelodau yn y dyfodol.<br><br>Nododd yr Arweinydd fod y Pwyllgor Gweithredol wedi ymwneud â'r Gweithgor a gwyddai am y gwaith da sy'n mynd rhagddo ar draws y Cyngor a chroesawodd ymrwymiad yr Aelod Gweithredol i fynd i'r afael â'r problemau hyn.<br><br>Cytunodd y Dirprwy Arweinydd gyda'r sylwadau a wnaed a nododd fod y pryderon yn cael eu codi'n gyson gan breswylwyr. Croesawodd y Dirprwy Arweinydd y cynllun gweithredu ac ymrwymiad yr Aelod Gweithredol.<br><br>Cytunodd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd gyda'r sylwadau a wnaed a diolchodd i Aelod Gweithredol yr Amgylchedd ar y cynnydd a wnaed yng nghyswllt anifeiliaid sy'n crwydro ar draws Blaenau Gwent.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyodd y Pwyllgor Gweithredol argymhellion am newidiadau i'r dull gweithredu/Cynllun Gweithredu fel y nodir yn yr adroddiad | |

| | | |
|---|---|---|
| | (Opsiwn 2). | |
| | **EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 13** | **ADRODDIAD CYLLID A PHERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN 2020/21**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd.<br><br>Cyfeiriodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol at drafodaethau diweddar yn y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol yng nghyswllt absenoldeb salwch. Dymunai'r Swyddog roi diweddariad ar y ffigur diwedd blwyddyn sef 11.67 diwrnod fesul gweithiwr cyflogedig, gostyngiad o 2.24 diwrnod fesul gweithiwr cyflogedig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn sefyllfa well. Ychwanegodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol, pe tynnid salwch cysylltiedig â Covid-19 o'r ffigur, y byddai'n 9.98 diwrnod fesul gweithiwr cyflogedig, gostyngiad pellach o 1.69 diwrnod. Ychwanegodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y cyflwynir adroddiad yn adolygu perfformiad absenoliaeth salwch i'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol yn yr Hydref.<br><br>Nododd yr Arweinydd y gwelliant mewn perfformiad, fodd bynnag mae cynnydd pellach i'w wneud a gofynnodd sut y gallai'r Pwyllgor Gweithredol gael sicrwydd fod dull cyson i fonitro absenoliaeth salwch.<br><br>Mewn ymateb, dywedwyd y cyflwynir adroddiadau monitro chwarterol i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol ac y caiff yr adroddiadau hyn wedyn eu hystyried yn y Cyfarfodydd Adrannol perthnasol. Cafodd lefelau salwch eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae cydweithwyr Datblygu Sefydliadol wedi cynorthwyo rheolwyr yn y broses. Awgrymodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y byddai monitro a chysondeb yn rhan o'r adroddiad ar absenoliaeth salwch.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y caiff absenoldeb salwch ei fonitro'n chwarterol gan y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol i sicrhau y cymerir dull gweithredu cyson, yn arbennig yng nghyswllt absenoldeb hirdymor. Gobeithiai'r Rheolwr Gyfarwyddwyr y gellid gwneud gwelliannau yn y dyfodol i wella absenoliaeth salwch ymhellach ar draws y sefydliad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ymhellach at yr adroddiad sy’n rhoi manylion perfformiad diwedd blwyddyn a dywedodd na fu blwyddyn debyg i hon. Roedd y pandemig wedi effeithio’n ddifrifol ar yr Awdurdod yn Chwarter 1 gyda newidiadau mawr ar gyfer staff ac ysgolion. Dymunai ddiolch i’r holl staff oedd wedi dangos ymrwymiad rhagorol yn ystod y pandemig. Cyfeiriodd hefyd at y partneriaethau cryf a ffurfiwyd gyda’r Ymddiriedolaeth a Tai Calon yn ogystal ag yn ehangach ar draws Gwent. Gobeithid y byddai’r partneriaethau hyn yn parhau.<br><br>Adleisiodd yr Arweinydd y sylwadau a wnaed a mynegodd ddiolch i bawb ar draws y sefydliad. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at ba mor gyflym y gwnaed y newidiadau a gobeithid y byddai’r cyflymder hwn hefyd yn parhau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi’r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** | |
| **No. 14** | **<u>DATBLYGU MODEL YNNI BUSNES I ALLUOGI PARCIAU BUSNES I SICRHAU CANLYNIADAU SERO NET</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi’r wybodaeth ynddo. | |
| **No. 15** | **<u>ADFERIAD COVID-19 – YR ECONOMI</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo unrhyw lwybrau ychwanegol o ymgysylltu a/neu gamau gweithredu (Opsiwn 1). | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - YR AMGYLCHEDD</u>** | |
| **No. 16** | **<u>CYNLLUN RHEOLI RISG LLIFOGYDD (2016- 2022)</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd a wnaed dros y 12 mis blaenorol (Opsiwn 1). | |
| **No. 17** | **ADRODDIAD CYNNYDD AR ANSAWDD AER LLEOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi cynnwys Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2019 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yng nghyswllt y monitro parhaus a'r adolygiad cyfredol o ansawdd aur o fewn Blaenau Gwent gan Adran Iechyd yr Amgylchedd i gyflawni dyletswyddau statudol yr Awdurdod gan gydymffurfio gyda Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995. | |
| | **EITEMAU MONITRO – ADDYSG** | |
| **No. 18** | **CYFARWYDDIAETH ADDYSG – CYNLLUN ADFER AC ADNEWYDDU**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, y dogfennau cysylltiedig a'r llwybr gweithredu a gynigir (Opsiwn 1). | |
| **No. 19** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD A MONITRO YMDDIRIEDOLAETH HAMDDEN ANEURIN (EBRILL 2020 – MAWRTH 2021)**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth – Pobl Ifanc a Phartneriaethau berfformiad Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ac eglurodd drefniadau monitro perfformiad y dyfodol fydd yn ei lle rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Cyngor. Nododd y Rheolwr Gwasanaeth y gwaith a gafodd flaenoriaeth ers mis Ebrill a'r ymateb i Covid-19. Yn nhermau perfformiad monitro, cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth y Pwyllgor Gweithredol at y cerdyn sgorio gweledol a ddatblygwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Byddai'r trefniadau adrodd presennol | |

| | | |
|---|---|---|
| | ynghyd â'r strwythur llywodraethiant newydd yn sicrhau fod perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn dryloyw ac atebol. Cyflwynir yr adroddiadau i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol, y Pwyllgor Craffu, y Pwyllgor Gweithredol a'r Cyd-grŵp Partneriaeth Strategol ar sail chwe misol.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth ymhellach fod y berthynas waith rhwng y Cyngor ac Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin wedi gwella'n fawr yn ystod cam 2 yr adolygiad. Roedd y berthynas waith gadarnhaol hon wedi parhau i wella drwy gydol y cyfnod clo i'r cyfnod ail-agor. Cafodd hyn ei gyfoethogi drwy'r cyfarfodydd strwythuredig wythnosol rhwng y swyddog cyswllt ac uwch reolwyr yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod chwe mis cyntaf y cyfnod clo.<br><br>Rhoddodd yr Arweinydd groeso i Mr P. Sykes, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin i'r Pwyllgor Gweithredol a chroesawodd Mr. Sykes y trefniadau gwaith rhwng yr Ymddiriedolaeth ac Addysg.<br><br>Dymunai'r Aelod Gweithredol Addysg ddiolch i'r Ymddiriedolaeth am eu gwaith caled a'u cefnogaeth i'r Cyngor yn y 18 mis diwethaf. Mae'r Aelod Gweithredol yn edrych ymlaen at adeiladu ar y berthynas gyda'r Ymddiriedolaeth wrth i'r Cyngor a'r Ymddiriedolaeth symud ymlaen i drefniadau gwaith sy'n fwy fel busnes fel arfer.<br><br>Cytunodd yr Arweinydd gyda'r sylwadau a wnaed a chanmolodd yr Ymddiriedolaeth am y gwaith gan fod y cyfleusterau yn y canolfannau chwaraeon, y llyfrgelloedd a'r canolfannau addysg oedolion yn rhagorol. Croesawodd Arweinydd y berthynas waith well rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth , sy'n enghraifft o weithio partneriaeth cadarnhaol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ynghyd â'r perfformiad blynyddol a'r cynigion ar gyfer trefniadau adrodd yn y dyfodol (Opsiwn 1). | |
| **No. 20** | **<u>RHAGLEN GWELLA YSGOLION 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant am yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg o'r ysgolion a gafodd eu harolygu, yn cynnwys ysgolion oedd wedi cyflwyno fel achos consyrn, eu cynnydd a'r gwaith a gyflawnwyd neu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i barhau i gefnogi eu gwelliant.<br><br>Nododd y Pennaeth Gwellla Ysgolion y broses ar gyfer categoreiddio ysgolion nad oedd wedi digwydd ers 2020 a chyfeiriodd at Atodiad 1 sy'n dynodi'r cynnydd sylweddol a wnaed mewn ysgolion yn ddiweddar.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol Addysg y cynnydd a wnaed yng | |

| | | |
|---|---|---|
| | nghyswllt ysgolion oedd yn achosi cynnydd. Bu cynnydd cadarnhaol yn Ysgol Gynradd Sofrydd, Cymuned Ddysgu Abertyleri ac Ysgol Sefydliadol Brynmawr a theimlai'r Aelod Gweithredol fod y camau a gymerwyd yng nghyswllt Canolfan yr Afon yn fwy na phriodol ar y cam hwn.<br><br>Cytunodd yr Arweinydd gyda'r sylwadau a wnaed oedd yn adleisio trafodaethau gyda'r EAS yn nhermau ysgolion ym Mlaenau Gwent.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 2). | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** | |
| **No. 21** | **<u>GWYBODAETH DIOGELU PERFFORMIAD AR GYFER GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AC ADDYSG – 1 EBRILL I 31 MAWRTH 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar cyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol at yr adroddiad sy'n rhoi perfformiad diogelu yn ystod 12 mis cyntaf y pandemig a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor Gweithredol fod y broses ddiogelu ac ymweliadau wedi parhau drwy gydol y pandemig i sicrhau fod plant yn cael eu cadw mor ddiogel ag sydd modd, yr un fath â phob blwyddyn arall.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r dull gweithredu a'r wybodaeth a fanylir yn yr adroddiad (Opsiwn 1). | |
| **No. 22** | **<u>EITEM(AU) EITHREDIG</u>** | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION YR AMGYLCHEDD</u>** | |
| **No. 23** | **<u>CANOLFAN GWEITHREDIADAU – DIWEDDARIAD AR Y PROSIECT AC ACHOS BUSNES AMLINELLOL</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol yng nghyswllt y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y | |

| | | |
|---|---|---|
| | budd cyhoeddus mewn cadw'r eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol busnes/personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 2 fel y'i manylir yn yr adroddiad. | |
| **No. 24** | **<u>GWAITH YCHWANEGOL CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD 2021 – 2022</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol yng nghyswllt y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cadw'r eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol busnes/personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 2 fel y'i manylir yn yr adroddiad. | |